# Datganiad Ysgol
# Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2026 i 2027.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

## Trosolwg Ysgolion

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Uwchradd Tywyn |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 370 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | 18% (67 dysgwr) |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | 7/9/26 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | Medi 2027 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Cyngor Sir Gwynedd |
| Yn arwain ar y GDD | David Thorp (Pennaeth) |
| Llywodraethwr sy'n arwain | Mrs Carys Fowles |

## Trosolwg Cyllid

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon | £63,250 |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | £63,250 |

## Rhan A: Cynllun Strategaeth

### Datganiad o fwriad

| |
|---|
| Mae Ysgol Uwchradd Tywyn wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial llawn, waeth beth fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol. Defnyddir Grant Datblygu Disgyblion yn strategol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad, presenoldeb, llesiant a chyfleoedd bywyd ein dysgwyr.<br><br>Bydd y grant yn cael ei ddefnyddio yn unol â thystiolaeth ymchwil ac anghenion penodol ein dysgwyr. Byddwn yn:<br>• Targedu cefnogaeth at ddysgwyr sy'n wynebu anfantais economaidd.<br>• Defnyddio dulliau sydd wedi dangos effaith gadarnhaol ar gynnydd dysgwyr.<br>• Monitro a gwerthuso effaith y grant yn rheolaidd.<br>• Sicrhau bod adnoddau'n cyfrannu at wella deilliannau addysgol a llesiant.<br><br>Mae pob penderfyniad gwariant GDD yn cael ei lywio gan ddata ysgol, anghenion disgyblion, tystiolaeth o arferion effeithiol a'r nod o leihau rhwystrau i ddysgu sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. |

### Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

| Canlyniad a fwriedir | Meini prawf llwyddiant |
|---|---|
| **Gwella Cyrhaeddiad Academaidd**<br>• Darparu ymyriadau llythrennedd a rhifedd wedi'u targedu.<br>• Defnyddio rhaglenni cefnogi dysgu a mentora.<br>• Sicrhau mynediad at adnoddau digidol a deunyddiau dysgu. | • Mae canran y dysgwyr sy'n gymwys i'r PDG sy'n gwneud y cynnydd disgwyliedig neu well mewn llythrennedd yn cynyddu.<br>• Mae canran y dysgwyr PDG sy'n gwneud y cynnydd disgwyliedig neu well mewn rhifedd yn cynyddu.<br>• Mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr PDG a'u cyfoedion yn lleihau.<br>• Mae cyfran y dysgwyr PDG sy'n cyflawni eu targedau unigol yn cynyddu. |

| | |
|---|---|
| | • Mae data tracio yn dangos cynnydd cadarnhaol gan ddysgwyr sy'n derbyn ymyraethau targedig. |
| **Gwella Presenoldeb ac Ymgysylltiad**<br>• Darparu cymorth bugeiliol wedi'i dargedu.<br>• Gweithio'n agos gyda theuluoedd i wella presenoldeb.<br>• Lleihau rhwystrau sy'n atal cyfranogiad llawn yn yr ysgol. | • Mae presenoldeb cyfartalog dysgwyr PDG yn gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.<br>• Mae nifer y dysgwyr PDG sy'n absennol yn barhaus yn lleihau.<br>• Mae nifer yr achosion o waharddiadau a digwyddiadau ymddygiad ymysg dysgwyr PDG yn lleihau.<br>• Mae mwy o ddysgwyr PDG yn cymryd rhan yn llawn mewn gwersi a gweithgareddau ysgol.<br>• Mae adborth gan ddisgyblion a staff yn dangos gwell ymgysylltiad â dysgu. |
| **Cefnogi Iechyd a Llesiant**<br>• Darparu mynediad at gymorth emosiynol a llesiant.<br>• Datblygu gwydnwch a hunan-barch dysgwyr.<br>• Cefnogi pontio a chyfnodau allweddol ym mywyd ysgol y disgybl. | • Mae dysgwyr sy'n derbyn cefnogaeth llesiant yn dangos gwelliant yn eu lles emosiynol a'u gwydnwch.<br>• Mae holiaduron llais y disgybl yn dangos bod dysgwyr PDG yn teimlo'n ddiogel, wedi'u cefnogi ac yn rhan o gymuned yr ysgol.<br>• Mae nifer y cyfeiriadau llesiant dwys yn lleihau dros amser.<br>• Mae mwy o ddysgwyr PDG yn adrodd lefelau uchel o hyder a hunan-barch.<br>• Mae pontio rhwng y sector cynradd ac uwchradd yn llwyddiannus i'r rhan fwyaf o ddysgwyr PDG. |
| **Ehangu Profiadau a Dyheadau**<br>• Cefnogi cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol. | • Mae cyfranogiad dysgwyr PDG mewn gweithgareddau allgyrsiol yn cynyddu. |

| | |
|---|---|
| • Darparu cyfleoedd diwylliannol, galwedigaethol ac addysgol ychwanegol.<br>• Datblygu dyheadau a chodi disgwyliadau ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth. | • Mae mwy o ddysgwyr PDG yn cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol a phrofiadau cyfoethogi.<br>• Mae dysgwyr yn dangos gwell ymwybyddiaeth o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a gyrfaoedd.<br>• Mae adborth disgyblion yn dangos dyheadau uwch ar gyfer eu dyfodol.<br>• Mae mwy o ddysgwyr PDG yn symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. |

**Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon**

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

| |
|---|
| Staffio ymyraethau addysgiadol<br>Staffio ymyraethau Lles<br>Deunyddiau dysgu<br>Profiadau cyfoethogi |

**Dysgu ac addysgu**

Cost wedi'i chyllidebu: £27,800

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Sesiynau mentora pan fo angen gyda Anogwyr Dysgu i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu a chyflawni targedau sy'n gweithio | Cofnodion sesiynau mentora, targedau unigol y disgyblion, adolygiadau cynnydd, llais y disgybl, cofnodion cyfarfodydd gyda rhieni, data presenoldeb ac ymddygiad cyn ac ar ôl yr ymyrraeth |
| Datblygu ymhellach a gweithio ar system tracio a chynllunio SMID i fesur cynnydd ac effaith y rhaglenni ymyrraeth sydd ar waith | Data SMID, adroddiadau olrhain cynnydd, cofnodion ymyraethau, dadansoddiad o ddata presenoldeb, cyrhaeddiad ac ymddygiad, adroddiadau gwerthuso tymhorol, astudiaethau achos unigol. |

| | |
|---|---|
| Darparu mentoriaid ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11 | Rhestrau paru mentor/dysgwr, cofnodion cyfarfodydd mentora, data presenoldeb, data perfformiad a rhagfynegiadau TGAU, adborth gan ddisgyblion a staff, cyfraddau cwblhau gwaith cwrs. |
| Darparu sesiynau gwaith cartref, rhifedd a llythrennedd (yn ogystal â grwpiau eraill yn ôl yr angen) yn ystod cyfnodau cofrestru boreol | Cofnodion presenoldeb y sesiynau, samplau o waith disgyblion, canlyniadau profion darllen a rhifedd, data asesiadau mewnol, cyfraddau cwblhau gwaith cartref, adborth gan ddisgyblion ac athrawon |

**Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)**

Cost wedi'i chyllidebu: £ 8,250

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Cymorth i gael gwersi offerynnol gan athrawon peripatetig | Cofnodion presenoldeb gwersi cerdd, adroddiadau gan athrawon peripatetig, cyflawniadau cerddorol, perfformiadau |
| Cymorth ar gyfer ymweliadau addysgol lle y bo'n briodol, a chefnogaeth gyffredinol fel y bo'n briodol | Cofnodion risg, rhestrau presenoldeb, gwerthusiadau ymweliadau, tystiolaeth llais y disgybl |
| Cefnogi disgyblion nad oes ganddynt fynediad i ddysgu ar-lein gartref | Cofnodion benthyca dyfeisiau, data defnydd Hwb/Teams, adborth gan deuluoedd, cyfraddau cwblhau gwaith cartref |

**Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)**

Cost wedi'i chyllidebu: £ 27,200

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Sesiynau llesiant wythnosol gyda staff Cynhwysiad ar gyfer disgyblion sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl | Cofnodion presenoldeb, cynlluniau sesiynau, holiaduron llais y disgybl, graddfeydd llesiant cyn ac ar ôl ymyrraeth |
| Sesiynau cymhelliant i godi lefelau presenoldeb a codi safonau yn CA4 | Data presenoldeb, data prydlondeb, tracio cynnydd academaidd, canlyniadau asesiadau, adborth gan ddisgyblion a staff |

| | |
|---|---|
| Parhau hyfforddiant ELSA i Cymhorthydd Lles a Chynhwysiant | Tystysgrifau hyfforddiant, cofnodion datblygiad proffesiynol, log sesiynau ELSA, gwerthusiadau o effaith ymyraethau |
| Hyfforddiant Trauma Informed Schools i'r staff Cynhwysiad, a gwreiddio systemau yn yr ysgol i godi cymhelliant dysgwyr yn enwedig yn CA4 | Tystysgrifau hyfforddiant staff, cofnodion cyfarfodydd, polisïau wedi'u diweddaru, arsylwadau dosbarth, gostyngiad mewn digwyddiadau ymddygiad neu waharddiadau |
| Cymhorthydd Lles a Chynhwysiant i gyfarfod gyda pob dysgwr sydd yn cyrraedd Encil o ganlyniad i broblemau ymddygiad – sesiynau adlewyrchol yn cael eu cynnal | Cofnodion Encil, ffurflenni myfyrio, targedau ymddygiad unigol, lleihad mewn atgyfeiriadau ailadroddus |
| Defnyddio'r Swyddog Cynhwysiant i gysylltu â rhieni y grŵp targed er mwyn sicrhau presenoldeb mewn nosweithiau rhieni | Logiau galwadau ffôn, e-byst a negeseuon, data presenoldeb nosweithiau rhieni, adborth gan rieni |
| Deunyddiau Dysgu a chyfarpar gan gynnwys meddalwedd a llyfrau | Cofnodion prynu, rhestrau offer a ddosbarthwyd, defnydd o feddalwedd, tystiolaeth o gwblhau gwaith a chynnydd |

Cyfanswm cost y ceisiadau: £ 63,250

## Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

### Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2025 i 2026.

| Effaith |
|---|
| Mae gweithgareddau'r grant wedi cyfrannu at wella llesiant, presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad dysgwyr. Trwy ddarparu cymorth emosiynol, mentora, ymyraethau academaidd ac adnoddau ychwanegol, mae mwy o ddysgwyr wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â'u haddysg, wedi gwneud cynnydd tuag at eu targedau personol ac academaidd, ac wedi datblygu'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol i lwyddo yn yr ysgol a thu hwnt.<br><br>Cododd niferoedd dysgwyr targed yn cyflawni Lefel 2 mewn Iaith i 38.5% o 14.3% y flwyddyn flaenorol.<br>Cododd niferoedd dysgwyr targed yn cyflawni Lefel 2 mewn Rhifedd i 46.15% o 28.6% y flwyddyn flaenorol. |

| |
|---|
| Llwyddodd 7.7% o'r dysgwyr targed gyflawni 5 A*-A o'i gymharu a neb y flwyddyn cynt. Manteisiodd nifer o'r dysgwyr ar gymorth ariannol i gymryd rhan mewn gweithgareddau Wythnos Cyfleoedd yr ysgol. |

**Rhaglenni a ddarperir yn allanol**

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

| Rhaglen | Darparwr |
|---|---|
| TT Rockstars | Maths Circle |
| Asesiadau Boxall | Boxall Profiles |